Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru

1 Gorffennaf 2019

CYNNWYS

1 Cyflwyniad

2 Egwyddorion cydweithredu

3 Meysydd cydweithredu

- Rhannu gwybodaeth
- Ymchwilio i ddigwyddiadau
- Cydweithio strategol

4 Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, y broses o'i adolygu a llofnodwyr

Atodiadau

Atodiad A - Enghreifftiau eglurhaol o achosion y gall Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ Awdurdodau Lleol (ALlau) fod yn gyfrifol amdanynt

Atodiad B - Trefniadau/cysylltiadau allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn cefnogi'r Cytundeb

Atodiad C - Rôl a swyddogaethau'r priod sefydliadau

Atodiad Ch - Siart lif ar gyfer ymdrin â niwed/pryderon difrifol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a gofal plant

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gymwys i ofal cymdeithasol a gofal plant a ddarperir yng Nghymru. Daw i rym ar 1 Gorffennaf 2019.

1.2 Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw galluogi gofal, iechyd a diogelwch i gael eu rheoleiddio'n effeithiol, yn gydlynol ac yn gynhwysfawr i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â safleoedd o'r fath, o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Mae'r dull gweithredu'n seiliedig ar gydweithio a thrafodaethau cynnar rhwng rheoleiddwyr er mwyn nodi'r sefydliad arweiniol.

1.3 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn amlinellu priod gyfrifoldebau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Awdurdodau Lleol (ALlau) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am sicrhau gwelliant, rheoleiddio ac ymchwiliadau effeithiol yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant, a'r egwyddorion a fydd yn cael eu cymhwyso pan fo modd cyfiawnhau eithriadau penodol i'r trefniadau cyffredinol hyn. Pan fydd gorgyffwrdd, gall hyn gynnwys cydweithio. Mae rhagor o wybodaeth am bob sefydliad ar gael yn **Atodiad C**.

2 Egwyddorion cydweithredu

2.1 Mae AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn ymrwymedig i egwyddorion tryloywder, atebolrwydd, cymesuredd a thargedu yn y broses o reoleiddio gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Bwriad y sefydliadau yw y bydd yr egwyddorion canlynol yn nodweddu eu cydberthynas waith:

- Gwella'r broses o ddarparu gofal cymdeithasol a gofal plant;
- Parch at statws annibynnol pob sefydliad;
- Yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y sefydliadau a'r broses reoleiddio;
- Bod y sefydliadau'n agored ac yn dryloyw â'i gilydd;
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

2.2 Bydd AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn sicrhau'r canlynol:

a) pan fo niwed difrifol, byddwn yn cysylltu â'i gilydd ar adeg gynnar er mwyn nodi'r sefydliad arweiniol a chydlynu unrhyw gamau dilynol. Mae hyn yn golygu y cysylltir â'r bobl a'r sefydliadau cywir er mwyn sicrhau gwelliant, sicrhau bod gweithdrefnau statudol yn cael eu dilyn, a'u bod yn cael eu dwyn i gyfrif os bydd angen.

b) pan nad oes gan y naill sefydliad na'r llall bwerau digonol oherwydd y fframwaith deddfwriaethol a'r polisïau presennol, byddant yn rhoi gwybod i'r partïon perthnasol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

c) byddant yn adolygu'r broses a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas at y diben i'r holl bartïon dan sylw.

3 Meysydd cydweithredu

3.1 Mae'r gydberthynas waith rhwng y sefydliadau'n cynnwys cydweithredu yn y meysydd canlynol:

- Rhannu gwybodaeth
- Ymchwilio i ddigwyddiadau
- Cydweithio strategol

Rhannu gwybodaeth

3.2 Bydd pob sefydliad yn cydweithio drwy:

- hysbysu a chydlynu â'r sefydliad priodol cyn gynted â phosibl am y wybodaeth sy'n dod i law am ddigwyddiadau a all fod o dan ei awdurdodaeth;
- rhannu data a gwybodaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â'r darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio ar y cyd;
- cyfarfod o bryd i'w gilydd er mwyn trafod rhannu gwybodaeth ac adolygu gweithdrefnau a threfniadau gwaith.

3.3 Mae AGC, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018. Os bydd un sefydliad yn cael cais am wybodaeth sydd wedi dod o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb. Bydd pob sefydliad yn trin gwybodaeth yn unol â'i brotocolau rhannu data gwahanol. Mae **Annex B** yn nodi'r trefniadau a'r cysylltiadau allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Cael gafael ar gyngor annibynnol/arbenigol (ar gyfer ymchwiliadau sifil/troseddol)

3.4 Os bydd angen i naill ai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl neu AGC gael cyngor arbenigol ar gyfer ymchwiliadau sifil/troseddol, byddant yn cysylltu â'i gilydd, er mwyn penderfynu a oes ganddynt yr arbenigwyr perthnasol i gefnogi'r sefydliad arall. Yn ogystal, dylai pob sefydliad rannu unrhyw beth sy'n cael ei ddysgu o ymchwiliadau neu achos cyfreithiol a all eu helpu i reoleiddio yn y dyfodol.

Atgyfeirio pryderon at gyrff proffesiynol

3.5 Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac AGC Femoranda Cyd-ddealltwriaeth â rhai cyrff proffesiynol. Os na fydd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch na'r ALlau femorandwm ar waith, byddant yn cysylltu, lle y bo'n briodol, ag AGW er mwyn cael cyngor ar gysylltu â'r corff proffesiynol perthnasol.

Materion trawsffiniol (e.e. comisiynu)

3.6 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rheoleiddio ym Mhrydain Fawr ac nid yw cyfyngiadau'r ffin rhwng Cymru a gweddill Prydain yn cyfyngu arno. Mae gan ALlau ffiniau llai ond maent yn cydweithio i sicrhau rheoleiddio effeithiol. Yn Lloegr, mae gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) bwerau o ran diogelwch defnyddwyr gwasanaethau, felly pan gaiff gofal ei gomisiynu o Loegr ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru, bydd angen i'r arweinydd rheoleiddiol perthnasol gysylltu â CQC er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion comisiynu. Yn yr un modd, pan gaiff gofal ei gomisiynu

o Gymru i Loegr ac mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl neu AGC yn gwybod am ddiffyg cydymffurfio neu safonau gwael, bydd angen i'r ddau sefydliad gysylltu â'r CQC er mwyn rhannu gwybodaeth lle y bo'n briodol.

Ymchwilio i ddigwyddiadau

Digwyddiadau unigol (o niwed difrifol)

3.7 Pan fydd marwolaeth yn digwydd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, yr heddlu fydd yn bennaf cyfrifol i ddechrau yn unol â'r Protocol ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r gwaith (WRDP) a'r Canllawiau Ymarferol cysylltiedig. Yr heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau penodol a'u herlyn. Mae hyn yn cynnwys dynladdiad unigol neu gorfforaethol, camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol ac yn estyn i achosion o ddwyn mewn achos o gamdriniaeth. Bydd AGC neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu hysbysu am ddigwyddiadau o'r fath ac yn gweithio gyda hwy yn unol â'r WRDP a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

3.8 Os bydd angen trosglwyddo'r prif gyfrifoldeb am ymchwiliad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu niwed difrifol oddi wrth yr heddlu, gwneir penderfyniad ynghylch ai AGC neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl fydd yn bennaf cyfrifol am yr ymchwiliad.

3.9 Mae **Atodiad A** yn cynnwys enghreifftiau eglurhaol o achosion nodweddiadol pan fydd AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn bennaf cyfrifol. Mae hefyd yn nodi pan fydd angen trafodaeth gynnar a chydgysylltu er mwyn cytuno ar y ffordd orau ymlaen. Bydd penderfyniadau ynghylch a ddylid ymchwilio i ddigwyddiadau penodol yn destun polisïau cyhoeddedig y ddau sefydliad. Mae **Atodiad Ch** yn nodi 'siart lif reoleiddiol' i'w dilyn.

Cydgysylltu am ddigwyddiadau unigol

3.10 Pan fydd ansicrwydd ynghylch awdurdodaeth neu pan fydd meini prawf penodol yn gymwys, bydd y cyrff perthnasol yn gwneud y canlynol:

- penderfynu ar y cyd pwy ddylai fod yn bennaf cyfrifol am unrhyw gamau rheoleiddiol a ph'un a gaiff unrhyw gamau rheoleiddiol eu cymryd ar y cyd neu ochr yn ochr â nhw;
- cadw cofnod o'r penderfyniad hwn a chytuno ar y meini prawf i'w adolygu;
- dynodi cysylltiadau priodol ym mhob sefydliad er mwyn dechrau a chynnal unrhyw ddeialog drwy gydol y camau rheoleiddiol (gweler **Atodiad B**);
- rhoi gwybod yn briodol i ddeiliaid dyletswyddau/darparwyr, y sawl a niweidiwyd a pherthnasau.

Amgylchiadau arbennig/eithriadol (meini prawf ar gyfer penderfynu am rolau)

3.11 Mewn nifer fach o achosion, gall fod yn aneglur pwy yw'r corff mwyaf priodol i fod yn gyfrifol am yr ymchwiliad a/neu unrhyw gamau gorfodi cysylltiedig. Os bydd AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn cytuno na all y naill na'r llall arwain yn

weithredol, caiff y mater ei atgyfeirio at y corff mwyaf priodol. Caiff unrhyw achosion o'r fath eu hystyried yn unigol ac yn ôl eu teilyngdod.

Cydweithio Strategol

3.12 Bydd AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn ystyried yr amgylchiadau pan fydd cydweithio'n cyflawni eu hamcanion orau. Bydd pob sefydliad yn ceisio ystyried ei gilydd wrth gynllunio ei raglenni gwaith ac yn nodi unrhyw bosibiliadau ar gyfer cydweithio.

3.13 Gallant gytuno i gynnal arolygiad, ymchwiliad neu waith arall ar y cyd. Drwy gydol gwaith o'r fath, bydd y sefydliadau'n cadw eu pwerau statudol eu hunain ac yn gweithredu yn unol â hwy. Gall y gwaith hwn gynnwys:

- Cyd-adolygu gwybodaeth am leoliad neu ddarparwr gofal cymdeithasol a gofal plant.
- Ymweliadau safle â sefydliad neu ddarparwr gofal cymdeithasol neu ofal plant.
- Cydgynhyrchu dogfennau ac adroddiadau
- Cydlynu'r broses o gynllunio unrhyw gamau gweithredu dilynol i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion
- Ymyriadau rhagweithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth
- Enghreifftiau eraill o gydweithio lle tybir ei fod yn briodol

4 Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu

4.1 Caiff y cytundeb hwn ei adolygu bob 2 flynedd neu pryd bynnag y bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol neu ceir deddfwriaeth newydd. Bydd hyn yn ystyried adborth gan y staff, y gwersi a ddysgwyd o'i roi ar waith ac effaith unrhyw newidiadau o ran dealltwriaeth.

Gillian Baranski Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru	Samantha Peace Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn y Maes Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Y Cyng. Dafydd Meurig Llefarydd Gwasanaethau Rheoliadol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad A

Enghreifftiau eglurhaol o achosion gofal cymdeithasol a gofal plant ar gyfer nodi'r prif reoleiddiwr sydd yn y sefyllfa orau neu pan fydd angen dull gweithredu ar y cyd

Cyflwyniad

Er mwyn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau, mae'r canlynol yn nodi meysydd bras pan fydd AGC neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn y sefyllfa orau o bosibl i arwain y trafodaethau ar brif gyfrifoldeb.

1 Meysydd lle gall AGC gael y brif rôl

Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau sy'n deillio o fethiannau yn ansawdd gofal y bobl sy'n derbyn gofal, er enghraifft:

- mae person yn dioddef niwed difrifol am nad yw wedi derbyn gofal yn unol â'i gynllun unigol;
- mae person yn dechrau dioddef o wlserau pwysau cronig;
- mae person yn cael niwed o ganlyniad i ddiffyg maeth neu ddiffyg hylif;
- mae plentyn yn cael niwed o ganlyniad i gael ei orfodi i fwyta;
- mae plentyn yn cael niwed o ganlyniad i lefelau staffio gwael.

2 Meysydd lle gall yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl gael y brif rôl:

Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth, y staff neu eraill (e.e. ymwelwyr) sy'n cael eu hanafu drwy weithgareddau contractwyr neu waith sy'n cael ei wneud ar y safle; neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â pheirannau gosodedig at ddefnydd unrhyw un (e.e. lifftiau neu risiau symudol).

Er enghraifft:

- cyflogeion sy'n dechrau dioddef o ddermatitis sy'n ymwneud â defnyddio menig;
- aelod o'r staff sy'n cael anaf wrth godi a chario o ganlyniad i weithgaredd yn y gwaith;
- mae sgaffald tŵr contractwr adeiladu'n cwympo mewn cyfleuster gofal;
- mae gofalwr yn cael anaf i'w groen o nodwydd sy'n serodrawsnewid ac yn heintio'r cyflogai;
- mae cyflogai neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn cael clefyd y llengfilwyr ac mae hyn yn gysylltiedig â'r amgylchiadau ar y safle;
- mae'n ymddangos bod bai sylweddol ar gyflogwyr nad oes rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru gydag AGC;

3 Meysydd lle dylid cynnal rhagor o drafodaethau rhwng AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl er mwyn cadarnhau'r sefydliad arweiniol (neu ddull gweithredu ar y cyd):

Gall y rhain gynnwys y canlynol:

- digwyddiadau a all beri risg neu niwed sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaeth, neu sydd wedi gwneud hynny;
- digwyddiadau sydd wedi rhoi aelodau o'r staff mewn perygl o gael niwed, ond y prif bryder yw'r risg fwy o niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- digwyddiadau lle mae'n ymddangos bod bai sylweddol ar y comisiynydd a'r darparwr cofrestredig;
- mae'n ymddangos bod bai sylweddol ar ddarparwyr gwasanaethau a ddylai fod wedi'u cofrestru gydag AGC, ond sydd heb gofrestru. (Mewn achosion o'r fath, gall AGC ystyried y drosedd o fethu â chofrestru, a gall yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl ystyried y diffygion penodol o ran safonau iechyd a diogelwch.)

ATODIAD B

Trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ffurfiol er mwyn cefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r sail dros rannu gwybodaeth rhwng y sefydliadau sydd wedi llofnodi'r ddogfen hon.

- Mae AGC yn cyflwyno templed Protocol Rhannu Gwybodaeth newydd. Bydd y Protocol Rhannu Gwybodaeth yn llywodraethu sut y mae AGC yn gweithredu gyda chyrff eraill o ran rhannu gwybodaeth a phrosesau busnes cysylltiedig. At ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, bydd Protocol Rhannu Gwybodaeth AGC yn llywodraethu sut y mae AGC yn rhannu ei gwybodaeth â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r ALl.
- Wrth rannu gwybodaeth o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, bydd AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl ar bob adeg yn cydymffurfio â'u priod rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Bydd pob sefydliad yn dilyn ei bolisïau rhannu data ei hun wrth drosglwyddo data personol a sensitif.
- Mae pob sefydliad yn credu bod y trefniadau sy'n cael eu nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cydymffurfio â'r agweddau perthnasol ar ddeddfwriaeth.

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r partïon eraill pan fydd yn amlwg er budd y gweithwyr neu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Trefniadau Rhannu Gwybodaeth Cyffredinol

Bydd pob sefydliad yn cydweithio drwy:

- hysbysu a chydlynu â'r sefydliad priodol mewn perthynas â phryderon perthnasol cyn gynted â phosibl er mwyn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a all fod o dan ei awdurdodaeth;

- rhannu gwybodaeth berthnasol am ddarparwyr cyffredin sy'n cael eu rheoleiddio;

- cyfarfod bob blwyddyn er mwyn adolygu gweithdrefnau a threfniadau gwaith a rhannu unrhyw broblemau neu bryderon.

Protocolau rhannu data
AGC – Meistrbrotocol Rhannu Gwybodaeth (2019) – ar gael gan AGC
https://arolygiaethgofal.cymru
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - Datganiad Preifatrwydd ar gyfer Rhannu Gwybodaeth - http://www.hse.gov.uk/privacy.htm a https://www.hsl.gov.uk/privacy-notice

ALlau – gellir dod o hyd i bob ALl unigol yn: https://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links

Cysylltiadau allweddol ar gyfer y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

	Pwy	Beth
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)	Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch publicservicessector@hse.gov.uk	Cyswllt yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer: • Ymholiadau am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a rhannu gwybodaeth.
	Tîm Pryderon Ffoniwch 0300 0031647 neu llenwch ffurflen gais ar-lein	Ar gyfer pryderon arferol sy'n cael eu nodi gan AGC neu Awdurdodau Lleol (ALlau) pan **nad oes risg uniongyrchol** a phan mai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch.
	Prif Arolygwyr Ei Mawrhydi	Ar gyfer digwyddiadau penodol pan nodwyd **risg uniongyrchol** yn yr ardaloedd canlynol a phan mai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch, efallai y bydd angen cysylltu'n uniongyrchol â Phrif Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer yr ardaloedd daearyddol canlynol:
	Cysylltwch â'r swyddfa yn Wrecsam: Ffôn: 0203 028 5080	Gogledd Cymru – Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn, Powys
	Cysylltwch â'r swyddfa yng Nghaerfyrddin: Ffôn: 0203 028 4730	De-orllewin Cymru – Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr, Rhondda Cynon Taf

	Cysylltwch â'r swyddfa yng Nghaerdydd: Ffôn: 0203 028 2260	De-ddwyrain Cymru – Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Torfaen, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Sir Fynwy
Awdurdodau Lleol/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Cadeirydd Panel o Arbenigwyr ALlau Cymru Gyfan Ian Jones Pennaeth Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ian1.jones@wrexham.gov.uk	Cyswllt ALl/CLILC ar gyfer: • Ymholiadau am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a rhannu gwybodaeth
Awdurdodau Lleol yng Nghymru	Tîm Iechyd yr Amgylchedd	Ar gyfer pryderon/digwyddiadau penodol a nodwyd gan AGC neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, pan mai'r ALl yw'r awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch, cysylltwch â'r Tîm perthnasol sy'n ymdrin ag Iechyd yr Amgylchedd ym mhob awdurdod. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt o wefannau gwahanol yr ALlau. https://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)	Prif wasanaeth cyswllt Ffôn: 0300 7900 126 E-bost: ciw@gov.wales	Cysylltiadau AGC ar gyfer materion gweithredol cyffredinol

ATODIAD C

Rôl a swyddogaethau AGC, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac ALlau

1 Rôl Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

1.1 AGC yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

1.2 Mae AGC yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol a'r rheoliadau cysylltiedig:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

1.3 Mae AGC yn cofrestru ac yn rheoleiddio amrywiaeth eang o wasanaethau:

- Gwasanaethau ar gyfer plant dan 12 oed, gan gynnwys gwarcheidwaid, meithrinfeydd, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal dydd sesiynol, darpariaeth mynediad agored.
- Gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi cael profiad o ofal, gan gynnwys cartrefi plant, canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau maethu annibynnol ac asiantaethau mabwysiadu annibynnol.
- Mae gwasanaethau gofal i oedolion yn cynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau gofal cartref, cynlluniau lleoli oedolion ac asiantaethau nyrsys.

1.4 Fel rhan o swyddogaeth reoleiddiol AGC, mae'n defnyddio ei phwerau sifil i gofrestru, arolygu a chymryd camau er mwyn gwella gofal plant a gofal cymdeithasol yng Nghymru, i sicrhau mai dim ond pobl a sefydliadau a fydd yn darparu gwasanaeth diogel o safon uchel fydd yn cael eu cofrestru. Mae gan AGC bwerau hefyd i roi cosbau troseddol pan dorrir y rheoliadau perthnasol y mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn unol â hwy neu ofynion penodol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

1.5 Mae Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi AGC yn nodi dull gorfodi cyffredinol AGC fel rheoleiddiwr, gan gynnwys yr egwyddorion a'r prosesau sy'n cael eu dilyn wrth ddefnyddio pwerau sifil a throseddol o dan y ddeddfwriaeth sy'n cael ei rhestru ym mharagraff 1.2.

2 Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

2.1 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awdurdod gorfodi sy'n gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch yn y gwaith ym Mhrydain Fawr ac fe'i sefydlwyd drwy Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HSWA). Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gorff cyhoeddus anadrannol â statws y Goron, a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn atebol i'w gweinidogion.

2.2 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rheoleiddio iechyd a diogelwch mewn amrywiaeth o sectorau a diwydiannau gan gynnwys safleoedd peryglon mawr megis gweithrediadau nwy ac olew ar y môr a safleoedd cemegion ar y tir, a safleoedd mwy confensiynol, chwareli, ffermydd, ffatrïoedd, safleoedd rheoli gwastraff ac ysbytai. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac ALlau yw cyd-reoleiddwyr iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol preifat neu gyhoeddus ym Mhrydain Fawr. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn arolygu, yn ymchwilio ac, os bydd angen, yn cymryd camau gorfodi. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rheoleiddio gofal nyrsio preswyl a darpariaethau awdurdodau lleol (ALlau).

2.3 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd yn ymchwilio i ddigwyddiadau a phryderon ynglŷn ag arferion iechyd a diogelwch, ac yn datblygu deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a diogelwch newydd neu ddiwygiedig.

Polisi a gweithdrefnau

2.4 Er mwyn galluogi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd agored a thryloyw, mae'r holl weithdrefnau gweithredol y mae'n eu dilyn, yn ogystal â'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau cysylltiedig ar gael i'r cyhoedd ar ei wefan.

3 Awdurdodau Lleol (ALlau)

3.1 Mae Awdurdodau Lleol (ALlau) yn awdurdodau gorfodi o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HSWA) sy'n gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch yn y gwaith ym Mhrydain Fawr ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

3.2 Mae ALlau yn rheoleiddio iechyd a diogelwch mewn amrywiaeth o sectorau a diwydiannau. Mae'r safleoedd y mae ALlau yn eu gorfodi yn cynnwys safleoedd manwerthu, warysau, cyfleusterau hamdden, gofal preswyl, meithrinfeydd gofal dydd preifat a darparwyr gofal plant. Gall ALlau arolygu'r safleoedd hyn neu weithgareddau penodol sy'n cael eu cynnal ar y safleoedd hynny ac yn ymchwilio i ddigwyddiadau a phryderon am arferion iechyd a diogelwch. Mae ALlau yn rheoleiddio gofal preswyl annibynnol nad yw'n ofal nyrsio.

3.3 ALlau yw'r awdurdod gorfodi hefyd mewn perthynas â diogelwch bwyd, iechyd y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd a rheoli adeiladu.

3.4 Mae ALlau yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae gan arolygwyr ALlau rwymedigaethau diogelu ac mae angen iddynt fynegi pryderon am blant neu oedolion sy'n agored i niwed wrth dimau diogelu priodol ALlau.

4 Rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdodau Lleol

4.1 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r ALlau yn gorfodi darpariaethau **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974** (HSWA) a'i Rheoliadau. O dan brif ddarpariaethau'r Ddeddf hon, mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch eu cyflogeion a phobl eraill, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, y gall eu gweithrediadau effeithio arnynt a all wynebu risgiau o ganlyniad. Mae'n ofynnol i gyflogeion gymryd gofal rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill. Mae achosion o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn droseddau. Ceir rhagor o wybodaeth am HSWA am wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn: http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030181e.htm.

Meini Prawf Dethol Digwyddiadau

4.2 Fel rhan o'u gweithdrefnau gweithredol ar gyfer ymchwiliadau, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac ALlau yn defnyddio Meini Prawf Dethol Digwyddiadau ar gyfer dethol pa ddigwyddiadau y dylid eu dethol i arolygydd ymchwilio iddynt.

4.3 Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bolisi gorfodi Adran 3 HSWA ynghylch p'un a ddylid ymchwilio i ddamweiniau penodol i'r sawl nad ydynt yn gyflogeion (e.e. defnyddwyr gwasanaeth) ai peidio. Yn ogystal â'r polisi cyffredinol hwn, mae tudalen we'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar bwy sy'n rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn rhoi canllawiau penodol ar reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

Datganiad Polisi Gorfodi

4.4 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi paratoi ac wedi cyhoeddi Datganiad Polisi Gorfodi sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r dulliau gweithredu y mae disgwyl i staff yr awdurdod, arolygwyr gan amlaf, eu dilyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau gorfodi. Mae'r Datganiad Polisi Gorfodi yn cwmpasu meysydd megis diben a dull y camau gorfodi, egwyddorion gorfodi, ymchwilio, erlyn a marwolaethau yn y gwaith.


Mae tystiolaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol neu mae'r Protocol ar gyfer Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â'r Gwaith yn gymwys. Trafodwch
Yr heddlu yn cymryd prif gyfrifoldeb
Cymorth AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl fel y
Mae'r heddlu ildio'r prif gyfrifoldeb neu mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â chymryd camau pellach
Ceir digwyddiad difrifol neu mae pryder difrifol yn codi a all arwain at niwed sylweddol
Atodiad Ch - Siart Lif Reoleiddiol
AGC yn cael ei hysbysu
Rhannu gwybodaeth am y digwyddiad yn gynnar er mwyn sicrhau bod pob sefydliad yn ymwybodol ohono a chytunwch ar amserlenni i fynd i'r afael â'r mater, os bydd yn briodol (gweler Atodiad B am fanylion cyswllt sefydliadau). Ystyried dull gweithredu ar y cyd os bydd yn briodol
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a/neu'r ALl yn cael gwybod
Mae AGC yn rhoi ei phroses o wneud penderfyniadau ar waith ac yn cynnal ymchwiliadau cychwynnol os bydd angen er mwyn cadarnhau a fydd angen camau sifil, ymchwiliad troseddol neu'r ddau (mae'r meini prawf dethol wrthi'n cael eu datblygu)
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn cymhwyso ei feini prawf ac enghreifftiau o sefyllfaoedd ac yn cynnal ymholiadau cychwynnol os bydd angen
Meini prawf dethol wedi'u bodloni. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl yn ymchwilio ac yn hysbysu AGC Ewch i Flwch 2
Meini prawf ar gyfer ymchwilio yn cael eu bodloni – mae AGC yn ymchwilio ac yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl
Meini prawf heb eu bodloni – dim camau gweithredu pellach. Hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl
Aneglur a yw'r meini prawf dethol wedi'u bodloni neu a yw'r mater yn rhan o gylch gwaith AGC
Aneglur a yw'r meini prawf dethol wedi'u bodloni neu a yw'r mater yn rhan o gylch gwaith yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl
Meini prawf dethol heb ei fodloni. Dim camau gweithredu pellach. Hysbyswch AGC
Blwch 1
Os bydd angen, bydd trafodaeth AGC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl er mwyn ystyried yr amgylchiadau. Cytuno nad oes angen camau pellach neu gytuno ar y sefydliad arweiniol i gynnal ymchwiliadau pellach er mwyn llywio'r penderfyniad os bydd angen
Blwch 2
Un rheoleiddiwr yn amlwg yn gyfrifol am y mater
Penderfyniad ar y cyd pa reoleiddiwr sydd yn y sefyllfa orau i fwrw ymlaen â'r mater drwy drafodaeth a'r canllawiau yn Atodiad A a C.
Mae'n parhau i fod yn aneglur pwy sydd yn y sefyllfa orau i arwain yr ymchwiliad
Arweinydd yn ymchwilio
Gellir cytuno ar y rheoleiddiwr sydd yn y sefyllfa orau i arwain a rhoi trefniadau i'r sefydliad arall gynorthwyo/cefnogi
Amgylchiadau'n cael eu hadolygu ar y cyd. Goblygiadau ehangach wedi'u hystyried
Trafodaethau rheolaidd os bydd angen â'r rheoleiddiwr arall er mwyn rhannu gwybodaeth ac adolygu tystiolaeth a phenderfyniadau gwreiddiol
Mae'r amgylchiadau y tu hwnt i gylch gorchwyl/polisïau AGC/yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ALl
Ymchwiliad wedi'i gwblhau. Camau unioni wedi'u cymryd a'r canlyniad wedi'i rannu â'r sefydliad arall lle y bo'n briodol
Gall y broses ddod i ben ar yr adeg hon
Os bydd angen, gofynnir am gymorth gan y sefydliad arall er mwyn sicrhau gwelliant a/neu ddwyn sefydliadau neu unigolion i gyfrif